Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Penmaenmawr
Ysgol Pencae,
Ffordd Craiglwyd,
Penmaenmawr,
Conwy
LL34 6YG

**Dyddiad yr arolygiad: Gorffennaf 2011**

**gan**

**Wil Williams**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y ysgol a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

Ⓗ **Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2011: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Mae Cylch Meithrin Penmaenmawr yn rhan o ddarpariaeth Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc Awdurdod Lleol Conwy ac yn darparu addysg cyn-ysgol cyfrwng Cymraeg i bentref Penmaenmawr a'r ardal o'i gwmpas. Mae'n cyfarfod yng Nghanolfan Integredig Plant yr awdurdod lleol sydd wedi ei lleoli yn Ysgol Gynradd Pencae, Penmaenmawr. Bernir nad yw'r ardal a wasanaethir gan y lleoliad yn ffyniannus nag ychwaith o dan anfantais economaidd a chymdeithasol.

Caiff plant o bob gallu a chefndir eu derbyn i'r lleoliad. Yn ystod yr arolygiad, nid oedd yr un plentyn ag anghenion dysgu ychwanegol nag o grŵp ethnig wedi'u cofrestru yn y lleoliad.

Mae'r lleoliad yn darparu sesiynau o dair awr am bum bore'r wythnos ar gyfer plant rhwng dwy a hanner a phedair oed. Bydd y nifer o sesiynau a fynychir gan blant unigol yn amrywio yn ôl dymuniad rheini. O'r dau ddeg un o blant sydd wedi'u cofrestru yn lleoliad ar hyn o bryd, mae deg ohonynt yn cael eu hariannu gan y Bartneriaeth.

Cymraeg yw prif iaith y cartref i oddeutu chwarter y plant. Prif gyfrwng addysgu a dysgu’r lleoliad yw Cymraeg gyda defnydd achlysurol o Saesneg.

Cefnogir addysg y plant gan arweinydd a thair ymarferydd. Mae'r holl staff unai gyda chymwysterau priodol ar gyfer addysgu’r blynyddoedd cynnar, neu'n wrthi'n derbyn hyfforddiant ar hyn o bryd.

Mae'r adeiladau yn cynnwys pedair ardal addysgu, toiledau, cegin a storfeydd. Caiff yr adeilad hefyd ei ddefnyddio gan nifer o wasanaethau eraill sy'n cynnwys yr ysgol gynradd. Nid oes ardal chwarae bwrpasol y tu allan ond mae buarth â pharc antur yr ysgol ar gael i'r lleoliad y rhan fwyaf o'r amser.

Wedi i’r plant orffen eu cyfnod yn y lleoliad, byddant yn parhau gyda’u haddysg yn Ysgol Gynradd Pencae.

Arolygwyd y lleoliad ddiwethaf gan yr Arolygaeth Gofal a Gwasanaeth Cymdeithasol Cymru ym mis Awst 2010. Dyma ei arolygiad cyntaf gan Estyn.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

**Perfformiad presennol**

Mae perfformiad cyfredol y lleoliad yn dda oherwydd bod:

- safonau llythrennedd llawer o'r plant yn dda:
- cymhelliant plant yn uchel a'u hymddygiad yn glodwiw;
- profiadau dysgu a'r ddarpariaeth ar gyfer medrau yn dda; a bod
- ansawdd gofal, cymorth ac arweiniad yn gyson uchel.

**Rhagolygon gwella**

Mae'r rhagolygon gwella yn dda oherwydd bod:

- hunan-arfarnu eisoes wedi arwain at welliannau;
- addysgu yn gyffredinol dda er bod diffygion mewn asesu;
- y gallu gan y lleoliad i wneud gwelliannau pellach; a
- pharodrwydd y lleoliad i weithredu ar gyngor yr athrawes gynhaliol.

## Argymhellion

Er mwyn gwella, mae angen i'r lleoliad:

A1 wneud gwell defnydd o wybodaeth asesu;

A2 ddatblygu hunan-arfarnu ymhellach;

A3 sicrhau bod gan y pwyllgor rheoli fwy o wybodaeth am berfformiad y lleoliad; a

A4 chynyddu rôl y rhieni yn nysgu eu plant.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd yr awdurdod lleol yn monitro cynnydd y lleoliad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae llawer o'r plant yn cyflawni safonau da o ystyried eu hoedran a'u cyfnod datblygu ac yn gwneud cynnydd realistig yn yr hyn y maent yn gallu ei wneud ac yn eu gwybodaeth, dealltwriaeth a'u medrau. Yn ystod sesiynau, mae'r rhan fwyaf yn cyflawni'n dda mewn amrywiaeth eang o weithgareddau sy'n cryfhau ac yn datblygu eu dysgu. Mae llawer o'r plant wedi datblygu medrau dysgu cadarn a rhinweddau personol pwysig megis dyfalbarhad a hyder, sy'n eu galluogi i fanteisio'n llawn ar gwricwlwm y Cyfnod Sylfaen.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn gwneud cynnydd da yn eu medrau cyfathrebu ac yn dwyn i gof ystod dda o ganeuon a rhigymau, a'u hadrodd yn glir a chyda mwynhad. Mae'r holl blant yn cyfathrebu eu hanghenion gyda hyder cynyddol ac yn barod i drafod eu profiadau gydag oedolion. Yn ystod gweithgareddau chwarae, mae'r plant yn siarad yn rhugl ac yn egluro'n glir yr hyn maent yn ei wneud. Mae bron pob un yn mwynhau gwrando ar storïau ac maent yn ymateb yn frwdfrydig i'w cynnwys.

Mae medrau darllen cynnar y mwyafrif o'r plant yn datblygu'n dda. Yn ystod gweithgareddau darllen, maent yn dal llyfr yn gywir ac yn ymddwyn fel darllenydd. Mae'r plant hynaf yn y grŵp yn dilyn eu hoff stori'n ofalus, unai trwy symud eu bysedd o dan y print o'r chwith i'r dde, neu trwy edrych ar y lluniau.

Mae mwyafrif y plant yn deall bod gan symbolau ysgrifenedig sŵn ac ystyr ac maent yn ymwybodol o rai o swyddogaethau ysgrifennu. Mae pob plentyn yn mwynhau defnyddio amrediad o offer ar gyfer gwneud marciau i nifer o ddibenion megis creu rhestr neu ysgrifennu neges.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn gwneud cynnydd addas yn eu dealltwriaeth o'r Gymraeg ac wedi dechrau defnyddio geiriau cyfarwydd a brawddegau byrion i fynegi eu hanghenion. Mae pob un yn deall mwy o eiriau nag y gallant siarad.

**Lles: Da**

Mae'r plant i gyd yn mwynhau eu hamser yn y lleoliad ac yn dangos lefelau uchel o gymhelliant. Mae ganddynt agweddau cadarnhaol tuag at ddysgu ac maent yn wynebu profiadau newydd yn frwdfrydig a hyderus. Maent i gyd yn dangos diddordeb yn y gweithgareddau a gynigir iddynt neu a ddewisir eu hunain, ac yn gwneud cynnydd addas tuag at ddatblygu'n ddysgwyr annibynnol.

Mae llawer o'r plant yn gwybod sut y gallant ddod yn iach drwy'r hyn maent yn ei fwyta a'r gweithgarwch corfforol maent yn ymgymryd ag ef. Mae'r berthynas glos rhwng plant ac ymarferwyr yn sicrhau fod pob plentyn yn teimlo'n ddiogel yn y lleoliad ac yn rhydd oddi wrth gam-drin corfforol neu eiriol.

Wrth ymgymryd â thasgau, mae'r holl blant yn cydweithio'n gytûn ac yn dangos gofal a chonsyrn tuag at ei gilydd. Mae ymddygiad plant yn glodwiw gyda phob unigolyn yn ymateb yn eiddgar iawn i gyfleoedd megis 'helpwr heddiw', i ymgymryd â chyfrifoldebau.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw’r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ymarferwyr yn cydweithio'n effeithiol er mwyn cynllunio profiadau dysgu ysgogol a hyblyg sy'n bodloni anghenion plant o'r holl ystod gallu. Mae hyn yn eu galluogi i wneud cynnydd da ym mhob maes dysgu'r Cyfnod Sylfaen. Mae'r cwricwlwm yn adeiladu'n systematig ar wybodaeth, dealltwriaeth a medrau presennol plant ac yn sicrhau bod dilyniant a pharhad yn eu dysgu. Mae'r cyfleoedd dysgu a ddarperir yn annog plant i ffurfio perthynas glos a'i gilydd, i arbrofi â phrofiadau newydd ac i wneud rhai dewisiadau eu hunain ynghylch eu dysgu. Er bod pob plentyn yn ymateb yn gadarnhaol i'r profiadau dysgu, nid oes darpariaeth digon penodol ar gyfer y grŵp bychan o blant sy'n siarad y Gymraeg.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer llythrennedd yn gydlynus ac wedi'i hymgorffori'n gadarn ym mhrofiadau pob un o'r plant. Mae'r ymarferwyr yn defnyddio'r amgylchedd dan do a'r ardal y tu allan, yn ddychmygus iawn i gyfoethogi profiadau dysgu ac i annog plant i gymryd diddordeb yn y byd o'u cwmpas. Gwneir defnydd addas o ymweliadau â lleoedd yn y gymuned ac o ymwelwyr â'r lleoliad, i ymestyn dysgu plant.

Er bod ychydig o gyfleoedd i blant i gymryd rhan mewn gweithgareddau ailgylchu, nid yw'r agwedd hon wedi datblygu'n llawn.

Mae darpariaeth dda ar gyfer hyrwyddo'r iaith Gymraeg a thraddodiadau a diwylliant Cymru. Trwy ddathlu'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd a gweithgareddau eraill tebyg, caiff ymwybyddiaeth plant o draddodiadau a diwylliannau eraill ei ddatblygu mewn modd ymarferol a diddorol. Mae hyn yn cyfrannu'n dda tuag at godi eu hymwybyddiaeth o'u rôl fel dinasyddion fyd-eang.

**Addysgu: Digonol**

Mae gan ymarferwyr wybodaeth a dealltwriaeth gyfoes o’r Cyfnod Sylfaen a disgwyliadau addas o'r rhan fwyaf o'r plant. Mae'r amgylchedd ddysgu a ddarperir y tu mewn a'r tu allan, yn un ysgogol a chyffroes sy'n darparu profiadau cyfoethog ar draws y chwe maes dysgu. Caiff ystod dda o strategaethau addysgu eu defnyddio'n feddylgar i sicrhau ymglymiad a diddordeb plant a rhoi rôl weithredol iddynt yn eu dysgu. Mae'r ymarferwyr yn gwybod pryd mae'n briodol i ymyrryd mewn dysgu'r plant a gwnânt hynny'n sensitif a medrus. Trwy gynllunio gofalus, ceir cydbwysedd priodol rhwng gweithgareddau a ddewisir gan y plentyn a’r rhai sy’n cael eu harwain gan ymarferwyr. Caiff amrywiaeth o adnoddau o dan do a'r tu allan, eu defnyddio'n ddychmygus i ddenu diddordeb plant ac i wella dysgu.

Mae ymarferwyr yn ddiweddar wedi dechrau cadw cofnodion bras o gynnydd plant yn y chwe maes dysgu. Fodd bynnag, mae diffyg manylder yn y cofnodion ac ychydig iawn o ddefnydd a wneir ohonynt wrth gynllunio camau nesaf mewn dysgu plant. Caiff y rhieni wybodaeth briodol am gyflawniadau, lles a datblygiad eu plant. Mae hefyd drefniadau addas ar gyfer rhannu gwybodaeth asesu gyda'r ysgol gynradd leol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad:  Da**

Mae'r holl blant yn hapus yn y lleoliad ac yn hyderus wrth ofyn i oedolyn am gymorth ac arweiniad.  Mae'r ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda ac yn ceisio gofalu bod anghenion pob un yn cael eu bodloni.

Mae profiadau dysgu yn hyrwyddo datblygiad personol a chymdeithasol plant yn llwyddiannus.  Mae ethos cynhaliol y lleoliad yn meithrin gwerthoedd megis gonestrwydd, tegwch a chyfeillgarwch yn effeithiol iawn ac yn helpu'r plant i wahaniaethu rhwng yr hyn sy'n iawn a'r hyn sydd ddim yn iawn.

Mae gan y lleoliad bolisïau a threfniadau addas ar gyfer hyrwyddo byw'n iach a lles plant.  Mae'n llwyddo i helpu pob plentyn i gyflawni iechyd a lles emosiynol a chorfforol ac i fanteisio'n llawn ar y profiadau dysgu a ddarperir iddynt.  Mae'r ymarferwyr yn gwybod sut i ymateb yn briodol os bydd heriau'n codi mewn perthynas â bwlio, ymddygiad annerbyniol a diogelu. Mae gan y lleoliad bolisi priodol ac mae ganddo weithdrefnau ar gyfer diogelu.

Pan gyfyd achosion penodol, mae trefniadau addas ar gyfer cefnogi plant ag anghenion dysgu ychwanegol ac i wneud defnydd effeithiol o asiantaethau allweddol.

Roedd adroddiad diwethaf Gofal a Gwasanaeth Cymdeithasol Cymru yn gadarnhaol ac ni wnaed unrhyw argymhellion ar gyfer gwella ansawdd gofal, cymorth ac arweiniad.

**Yr amgylchedd dysgu:  Da**

Mae'r lleoliad yn gymuned gynhwysol lle caiff yr holl blant hawl gyfartal i'r holl feysydd dysgu a'r gweithgareddau a ddarperir ar eu cyfer.  Mae pwyslais cryf ar ddatblygu agweddau goddefgar ac ar sicrhau bod plant a staff yn rhydd oddi wrth unrhyw aflonyddwch.  Mae gan y lleoliad nifer digonol o ymarferwyr sy'n meddu ar wybodaeth ac arbenigedd angenrheidiol i addysgu pob agwedd ar gwricwlwm y Cyfnod Sylfaen.  Llwydda'r ymarferwyr i greu amgylchedd ysgogol  lle y gall pob plentyn fanteisio'n llawn o'u profiadau dysgu a datblygu gwerthoedd ac agweddau cadarnhaol.

Mae cyflenwad da o adnoddau o ansawdd ym mhob maes dysgu sydd wedi eu gweddu'n ofalus i ddatblygiad ac anghenion dysgu pob unigolyn.  Caiff yr adnoddau yn yr ardal y tu allan a rennir gyda'r ysgol a hefyd yn y  gymuned leol eu defnyddio'n ddychmygus i gefnogi dysgu.  Mae'r adeiladau a'r ystafelloedd o ansawdd da iawn ac yn cael eu defnyddio i'w llawn botensial.

| **Cwestiwn Allweddol 3:  Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Digonol** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth:  Digonol**

Mae gan yr arweinydd wybodaeth gadarn o ofynion y Cyfnod Sylfaen ac mae'n sicrhau bod ymdeimlad o bwrpas yn y sesiynau.  Mae pob sesiwn yn drefnus ac wedi'u cynllunio'n ofalus fel y defnyddir amser plant ac oedolion yn effeithiol ac effeithlon.

Mae'r arweinydd a'r ymarferwyr yn cydweithio'n agos ac yn cyd-rannu gwerthoedd cytûn ynghylch dysgu, ymddygiad a pherthynas.  Gwnânt yn siŵr bod y Cyfnod

Sylfaen ynghyd â blaenoriaethau cenedlaethol eraill, yn cael eu cyflwyno'n llwyddiannus. Mae'r ymarferwyr yn cyflawni eu cyfrifoldebau addysgu'n gydwybodol gan gynnig lefel uchel o gynhaliaeth i'r plant a'r arweinydd. Caiff yr addysgu a'r dysgu eu rheoli'n addas ac mae trefniadau clir ar gyfer rhoi polisïau'r lleoliad ar waith. Mae pob aelod staff gyda dealltwriaeth glir o'u rôl a'u cyfrifoldebau ac maent yn rheoli eu hamser yn ofalus yn ystod sesiynau. Mae gweinyddiaeth dydd-i-ddydd ac yn arbennig y trefniadau ar gyfer cofrestru plant ar gychwyn sesiynau, yn effeithiol ac yn sicrhau bod sesiynau'n rhedeg yn llyfn.

Er y caiff perfformiad dydd-i-ddydd staff ei reoli'n addas, mae diffyg ffocws clir yn y trefniadau ar gyfer gwerthuso perfformiad staff yn flynyddol.

Mae aelodau'r pwyllgor rheoli yn cynnig cefnogaeth dda i'r lleoliad ac maent yn weithgar iawn yn trefnu gweithgareddau codi arian er mwyn gwella'r ddarpariaeth adnoddau. Fodd bynnag, nid oes cynrychiolaeth o'r rhieni ar y pwyllgor ac nid yw'r aelodau yn derbyn gwybodaeth reolaidd am berfformiad ac anghenion datblygu'r lleoliad.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Trwy'r trefniadau hunan-arfarnu a sefydlwyd yn ddiweddar, mae gan ymarferwyr wybodaeth gynyddol o gryfderau'r lleoliad a'r agweddau sydd angen gwelliant. Gyda chefnogaeth sylweddol yr athrawes gefnogol, mae'r lleoliad wedi cynnal arfarniad o'i waith ac wedi ymgorffori'r canfyddiadau mewn cynllun gweithredu addas. Mae rhai blaenoriaethau eisoes wedi eu rhoi ar waith ac wedi arwain at welliannau mewn meysydd dysgu penodol, megis rhifedd. Datblygiad diweddar yw'r defnydd o holiaduron i roi cyfle i rieni leisio barn am waith y lleoliad. Fodd bynnag, mae hunan-arfarnu yn ei ddyddiau cynnar o ddatblygiad a heb ddatblygu i'w lawn botensial.

Mae ymarferwyr yn cael eu cefnogi'n dda gan raglen datblygiad proffesiynol parhaus gynhwysfawr a ddarperir yn bennaf gan yr awdurdod lleol a'r Mudiad Meithrin. Caiff hyn ei ategu gan ymweliadau rheolaidd yr athrawes gynhaliol sydd wedi bod o gymorth mawr i'r arweinydd a'r ymarferwyr i fynd i'r afael â mentrau newydd. Mae'r trefniadau hyn yn sicrhau fod pob ymarferydd yn caffael gwybodaeth a medrau newydd yn rheolaidd a'u bod yn ymwybodol iawn o ddatblygiadau diweddaraf yn y Cyfnod Sylfaen. Mae'r ymarferwyr yn barod iawn i weithredu ar gyngor yr athrawes gefnogol, maent yn rhannu arfer dda o fewn y lleoliad yn gyson ac yn myfyrio ar eu harfer eu hunain.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae ystod addas o weithgareddau partneriaethau yn cyfrannu at gyflawniadau a lles plant. Mae'r cydweithio cynhyrchiol gydag athrawes ymgynghorol yr awdurdod lleol ynghyd â pharodrwydd yr ymarferwyr i weithredu ar gyngor, wedi arwain at welliannau mewn safonau a darpariaeth. Mae partneriaeth gref gyda'r ysgol gynradd gyda'r lleoliad yn elwa'n sylweddol o'r defnydd a gaiff ei blant o adnoddau y tu allan yr ysgol. Mae'r ymarferwyr yn cydweithio'n agos iawn, yn rhannu gwybodaeth am blant ac yn gwybod gyda phwy i gysylltu a phryd ac os bydd angen cymorth ychwanegol ar gyfer plant. Mae cysylltiadau defnyddiol gyda mudiadau yn y gymuned leol.

Mae'r cysylltiadau dyddiol gyda'r rhieni yn darparu cyfleoedd da i bob rhiant neu warchodwr i drafod gyda'r ymarferwyr unrhyw faterion sy'n effeithio ar eu plant. Er yr

hysbysir y rhieni am rai agweddau o waith y lleoliad, ni chymerir camau gweithredol i'w cynnwys yn nysgu eu plant.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r lleoliad wedi'i staffio'n briodol i addysgu pob agwedd o gwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. Mae'r ymarferwyr yn cael eu defnyddio'n effeithiol i wneud y defnydd gorau posib o'u harbenigedd a'u profiad a rheolir yr holl adnoddau'n ofalus.

Mae gan yr arweinydd a'r pwyllgor rheoli ddealltwriaeth briodol o'u cyllideb ac maent yn blaenoriaethu gwariant yn unol ag anghenion datblygu'r lleoliad. Mae penderfyniadau gwariant yn cael eu harfarnu'n ofalus gan yr arweinydd a'r staff i wneud yn siŵr eu bod yn cael effaith cadarnhaol ar safonau, cynnydd a lles plant. Mae'r lleoliad yn rhoi gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Gan mai un holiadur rhieni yn unig a dderbyniwyd ni wneir unrhyw sylwadau ar farn rhieni.

**Ymateb i drafodaethau gyda phlant**

Mae'r plant yn dweud eu bod yn hapus yn y lleoliad a'u bod yn hyderus i droi at unrhyw oedolyn i ofyn am gyngor neu arweiniad.

## Atodiad 2

**Yr arolygydd cofnodol**

| | |
|---|---|
| Wil Williams | Arolygydd Cofnodol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn yr ysgol ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk <http://www.estyn.gov.uk/>)